

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Polisi Cyngor Cymuned Llandybie a gynhaliwyd trwy gyfrwng Microsoft Teams ar nos Fercher Chwefror 1^{af}, 2022 am 7. 00 yh.

Preseennol

Cynghorwyr P. H. Roberts R. A. Davies C. J Harris

Ymddiheuriadau

Cynghorydd I. Rh. Llewelyn

1045.

Adolygiad o'r Polisiau a'r Dogfennau

(i) Y Gofrestr Asedau – roedd y Clerc wedi adolygu'r gofrestr ac roedd y newidiadau a ddangosir isod wedi'u gwneud:-

a) Adolygwyd y meinciau ymyl y ffordd ac yn y parciau a chynyddwyd y nifer o 115 i 129.

b) Ychwanegwyd Parc Bonllwyn at y gofrestr asedau ac erbyn hyn mae'n cael ei ddal ar drwydded oddiwrth Ystâd Brynmarlais.

(ii) Cafodd yr holl ddogfennau a pholisiau eraill eu harchwilio ac fe **argymhellwyd** eu bod yn aros yn ddigynfnewid, fel y cytunwyd ym mis Chwefror 2021.

1046.

Polisi Hyfforddiant a Datblygu

Gofynnwyd bod y Pwyllgor yn ystyried Polisi Hyfforddiant a Datblygu newydd.

Argymhellwyd mabwysiadu'r polisi.

1047.

Polisi Teledu Cylch Cyfyng

Gofynnwyd bod y Pwyllgor yn ystyried Polisi Teledu Cylch Cyfyng newydd.

Argymhellwyd mabwysiadu'r polisi.

1048.

Cylch Gorchwyl y Pwyllgorau

Roedd y Clerc wedi cynnal adolygiad o'r Cylch Gorchwyl ar gyfer yr holl Bwyllgorau, ac **argymhellwyd** eu bod yn cael eu mabwysiadu a'u cadarnhau yn ystod cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn

1049.

Gan nad oedd unrhyw fater arall i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.30 yh.